(2)LEG-13-2003(min)

# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION:

**Dyddiad:** 2 Rhagfyr 2003

**Amser:** 9:30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

## Presennol:

| | |
|---|---|
| Eleanor Burnham | (Democratiaid Rhyddfrydol) |
| Rosemary Butler | (Llafur) |
| Christine Chapman | (Llafur) |
| Jeff Cuthbert | (Llafur) |
| Glyn Davies | (Ceidwadwyr) |
| Irene James | (Llafur) |
| Elin Jones | (Plaid Cymru) |
| Laura Jones | (Ceidwadwyr) |
| Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Catherine Thomas | (Llafur) |

## Swyddogion

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Huw Rowlands | Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |

Ymddiheuriadau am absenoldeb: ni dderbyniwyd ymddiheuriadau

## Eitem 1: Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf – (2)LEG-12-2003

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2003.

## Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd

2.1 Gan nad oedd unrhyw gamau gweithredu wedi codi o'r cyfarfod diwethaf, awgrymodd y Cadeirydd y dylid symud yn uniongyrchol at drafod deddfwriaeth.

## Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

## 3.1 LC797 – Gorchymyn Cwn yn Baeddu (Cosb Benodedig) (Cymru) 2003 ac LC798 – Gorchymyn Sbwriel (Cosb Benodedig) (Cymru) 2003

Mewn perthynas â'r Gorchmynion uchod gwnaed dau sylw gan yr Aelodau y byddai'n rhaid eu cyflwyno i adroddiadau'r Pwyllgor: byddai wedi bod yn gliriach pe bai'r ddau Orchymyn wedi cael eu cyfuno am eu bod yn gysylltiedig a byddai angen cadarnhau geiriad y ddau Orchymyn gyda'r Cwnsler Seneddol am eu bod yn diwygio Deddfwriaeth Sylfaenol.

## 3.2 LC799 – Gorchymyn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Sylfaenol) 1997 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2003

Nododd yr Aelodau y byddai'r Gorchymyn hwn yn cael ei dynnu'n ôl o'r dogfennau a gyflwynwyd oherwydd derbyniwyd nad oedd o fewn pwerau'r Cynulliad. O ganlyniad, cafodd y Gorchymyn ei hepgor o drafodaeth y Pwyllgor Deddfau ac ni fyddai adroddiad yn cael ei gyflwyno.

3.3 Mewn perthynas â'r Offerynnau Statudol canlynol cytunodd yr Aelodau y dylid gwneud yr adroddiadau ar ffurf y drafftiau a gyflwynir i'r Pwyllgor gan yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol:

## LC792 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2003

## LC791 - Gorchymyn Cynlluniau Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 2004

## LC795 - Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003

## LC796 - Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003

## LC802 - Rheoliadau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (Cofrestru, Modrwyo a Marcio Adar Caeth Penodol) (Cymru) 2003

## LC804 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifeg) (Cymru)

**2003**

**LC783 - Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Cymeriad Crefyddol Ysgolion) (Gweithdrefn Ddynodi) (Cymru) 2003**

**LC786 - Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2003**

**LC788 - Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Cyhoeddi Adroddiadau Arolygu) (Cymru) 2003**

**LC789 - Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003**

**LC790 - Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2003**

**LC793 - Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2003**

**LC794 - Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003**

**LC800 - Rheoliadau Colagen a Gelatin (Masnach o fewn y Gymuned) (Cymru) 2003**

**LC801 - Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) (Diwygio) 2003**

**LC803 - Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Diwygio) (Cymru) 2003**

**LC805 - Rheoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff (Diwygio) (Cymru) 2004**

## Eitem 4: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

4.1 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 13 Ionawr 2004.